**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 06-00 (p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 27 Hydref 2000 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 12.25pm |
| **Lleoliad:** | Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam |

# RHOI CYMUNEDAU'N GYNTAF - YSTYRIED Y FFORDD YMLAEN YNG NGOLEUNI YMATEBION I'R YMARFER YMGYNGHORI CYCHWYNNOL

## 1. Diben

1.1 Gwahoddir barn y Pwyllgor ar y ffordd ymlaen gyda 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd yng nghyfnod cyntaf yr ymarfer ymgynghori. Bwriadwn gyhoeddi ail bapur ymgynghori yn fuan, yn defnyddio'r ymatebion hynny ac yn nodi cynigion cadarn ar gyfer y rhaglen hon.

## 2. Crynodeb

Roedd y materion allweddol a nodwyd fel ymateb i'r ymarfer ymgynghori cychwynnol fel a ganlyn:

- **rhwystrau i ddatblygu cymunedol** - fel gwahaniaethu yn erbyn rhai grwpiau o bobl ac ariannu mecanweithiau sy'n groes i weithio rhyng-asiantaethol - angen cael gwared â hwy;
- mae **darparu gwasanaeth gwael** mewn ardaloedd tlawd yn dwysáu anghydraddoldeb cyfleoedd bywyd a hyd bywyd;
- mae **ansawdd tai** yn dylanwadu'n uniongyrchol ar iechyd ac ansawdd bywyd, a gallai cynnydd yn y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael helpu i atal diboblogi cefn gwlad;
- mae **deiet ac iechyd** yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflogadwyedd, yn ogystal ag ansawdd bywyd;
- mae ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig angen buddsoddiad i'w harfogi â'r **sgiliau** i ddenu cyfleoedd cyflogaeth i'w hardal - ond os nad oes **disgwyliadau cael gwaith,** efallai y byddant yn anfodlon mynd am hyfforddiant;
- mae addysg plant, yn arbennig **rhifedd a llythrennedd**, yn elfen hanfodol o strategaeth adnewyddu cymunedau, ac mae angen rhoi sylw i sicrhau nad yw tablau cynghrair ac arolygiadau'n ychwanegu at y gwarth a welir i fod yn gysylltiedig ag ysgolion mewn cymunedau dan anfantais;
- gallai **gwell trafnidiaeth** helpu i wyrdroi diboblogi a helpu mwy o bobl i gael hyfforddiant ac addysg;
- mae gwell mynediad at **gyfleusterau, gwasanaethau a gwasanaethau diwylliannol da** (o flychau post i ofal meddygol) yn elfen hanfodol o gymuned gynaliadwy;
- mae ysbryd cymunedol a balchder dinesig yn cael ei feithrin trwy **gynnal a chadw'r amgylchfyd**

**ffisegol a gwella arno** (casglu sbwriel, lleoedd i chwarae, coed);
- mae **gweithgareddau troseddol ac ymddygiad anghymdeithasol**, ynghyd â chamddefnyddio sylweddau, yn bryder mawr i gymunedau difreintiedig ac mae'n tanseilio hyder cymunedau; ac
- mae **difaterwch**, yn codi o anfodlonrwydd ieuenctid a difaterwch cyffredinol yn y gymuned, yn cynyddu ac mae wedi gwaethygu oherwydd ymdeimlad o ynysrwydd mewn cymunedau a hefyd raglenni adnewyddu byrdymor y teimlwyd eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu economaidd heb edrych ar y ffactorau eraill a nodwyd uchod.

2.2 Mae'r papur ymgynghori newydd yn cynnig fel a ganlyn:

- dylid nodi **100 o'r cymunedau mwyaf difreintiedig** yng Nghymru, gan ddefnyddio'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog wedi'i gyfuno â gwybodaeth leol;
- dylid dethol hyd at bum cymuned ddifreintiedig o **bob ardal awdurdod lleol;**
- bydd y Cynulliad, a phartneriaid eraill, yn gwneud **ymrwymiad tymor hir** i ariannu'r cymunedau sy'n cymryd rhan mewn 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' a'u cefnogi mewn ffyrdd eraill, trwy gynllun grant penodol a thrwy Raglenni prif ffrwd y Cynulliad;
- bydd **adeiladu gallu** yn elfen hanfodol o'r Rhaglen, i sicrhau y ceir newid parhaol a chynaliadwy;
- bydd **partneriaethau cymunedol** yn datblygu gweledigaeth eu cymuned ac yn cynllunio sut i'w chyflwyno; bydd yn rheoli, yn adolygu ac yn gwerthuso ei rhoi ar waith; ac yn ymwneud â'r gymuned ac asiantaethau lleol i sicrhau bod y cynllun lleol yn parhau i fodloni anghenion a blaenoriaethau lleol;
- anogir **Aelodau'r Cynulliad** i ymuno â'r partneriaethau yn eu hetholaethau; a
- **dylid mesur cynnydd** trwy system o feincnodi yn erbyn set o bum mesur ar hugain (yn cynnwys meysydd gweithgaredd economaidd, addysg a hyfforddiant, yr amgylchedd, iechyd a chymdeithas sifil) i'w dilysu'n allanol.

2.3 Yn y papur ymgynghori, drwyddo draw, gofynnir cyfres o gwestiynau yn codi o'r argymhellion hyn ar gyfer ymgynghori. Byddant hefyd yn ffocws ar gyfer cynhadledd ymgynghori i'w chynnal yn y canolbarth yn fuan ar ôl cyhoeddi'r papur ymgynghori.

**3. Amseru**

3.1 Bwriedir i ail gyfnod yr ymgynghori ar y rhaglen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' ddechrau'n fuan, pan gyhoeddir y papur ymgynghori newydd. Gwahoddir Aelodau'r Cynulliad i roi eu barn ymlaen llaw ar y broses honno sy'n mynd rhagddi. Mae 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' i'w weithredu o fis Ebrill 2001. 4. Cefndir 4.1 Mae mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn un o'r tair brif thema a fabwysiadwyd gan y Cynulliad yn ei gynllun strategol, 'Gwell Cymru'. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ymladd tlodi ac anfantais gymdeithasol a llenwi'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r rhai mwy llewyrchus.

**4. Cefndir**

4.1 Mae mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn un o'r tair prif thema y mae'r Cynulliad wedi eu mabwysiadu yn ei gynllun strategol, 'Gwell Cymru'. Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i ymladd tlodi ac anfantais gymdeithasol a chau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r rhai mwyaf llewyrchus.

4.2 Lansiwyd 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' ar 31 Mawrth, pan gyhoeddwyd y papur ymgynghori cyntaf. Yr oedd y papur hwnnw'n nodi egwyddorion fframwaith polisi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sef:

- bod angen dull heb fod yn rhagnodol, a'i ganolbwynt ar y gymuned, at adfywio cymunedau, wedi'i dargedu at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru;
- y dylai adfywio ac adnewyddu cymunedau ddiwallu'r anghenion a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cymunedau eu hunain i'r adnewyddu fod yn gynaliadwy, a
- bod gofyn cael ymrwymiad tymor hir gan y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i hyrwyddo partneriaethau real ar lefel leol.

4.3 Mae'r Cynulliad wedi ymgynghori'n eang ar y fframwaith hwn, ac mae ystod eang o gyfranogwyr wedi bod yn ymwneud â'r broses o ddatblygu polisi trwy seminarau datblygol a sesiynau trafod ledled Cymru. Yn ychwanegol, cafwyd 160 o atebion ysgrifenedig fel ymateb i'r ddogfen ymgynghori gychwynnol. Dadansoddwyd y rhain yn drylwyr, ac mae'r syniadau a'r sylwadau sydd ynddynt wedi helpu i lunio'r cynigion a nodir yn yr ail ddogfen ymgynghori. Bydd crynodeb manwl o'r ymatebion a ddaeth i law a rhestr o'r rheiny a ymatebodd mewn llythyr ynghlwm â'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd.

4.4 Mae'r atodiad i'r papur hwn yn crynhoi y dulliau o adfywio cymunedol a ddefnyddir yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

**5. Cydymffurfio**

5.1 Nid oes materion newydd o ran cydymffurfio na rheoleidd-dra neu briodoledd.

**6. Goblygiadau ariannol**

6.1 Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol yngln â'r papur hwn a nodwyd bod y ddarpariaeth gyllideb ar gyfer y rhaglen hon yn cael ei ystyried ar gyfer y 3 blynedd nesaf fel rhan o'r cylch cyllidebu cyfredol.

**7. Themâu trawsbynciol**

7.1 Bydd 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' yn gwneud cyfraniad mawr i ymrwymiad y Cynulliad i fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol.

---

**ATODIAD A:**

## GWYBODAETH GEFNDIR AR DDULLIAU O ADFYWIO CYMUNEDAU YN YR ALBAN, GOGLEDD IWERDDON A LLOEGR

### 1. ADFYWIO CYMUNEDAU YN YR ALBAN

### GWEITHREDIAETH YR ALBAN

Nododd Gweithrediaeth yr Alban ei gweledigaeth ar gyfer Alban gymdeithasol gyfiawn yn *"Social Justice: A Scotland where everyone matters"*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 1999. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r weledigaeth tuag at gael cenedl decach, lle mae cyfle cyfartal i bawb a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae'n datgan yn eglur bod lle canolog i'r ymrwymiad hwn at gyfiawnder cymdeithasol yn rhaglen y Weithrediaeth. Mae adroddiad *Social Justice* yn nodi 10 targed a 29 carreg filltir a luniwyd i fonitro cynnydd tuag at y nodau hyn. Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i adrodd arnynt bob blwyddyn, a chyhoeddir Adroddiad Blynyddol Cyfiawnder Cymdeithasol yr Alban yn ystod y misoedd nesaf. Nodweddir y weledigaeth hon gan dri ymrwymiad:

- Dod â thlodi plant i ben o fewn cenhedlaeth;
- Cyflogaeth lawn yn yr Alban; a
- Sicrhau urddas a diogelwch i bawb yn eu henaint.

Fel rhan o'r agenda hon, mae'r Weithrediaeth am sicrhau bod gan ei hardaloedd difreintiedig y gallu a'r hyder i arwain eu hadnewyddu hwy eu hunain. Bydd **rhai** o'r ffyrdd o gyflwyno hyn yn cynnwys y canlynol:

- Y rhaglen Partneriaeth Cynhwysiant Cymdeithasol, yn cynnwys rhwydwaith o 48 o bartneriaethau dros gymunedau trefol a gwledig ledled yr Alban. Neilltuir £150m o arian i'r partneriaethau hyn dros 3 mlynedd. Bydd aelodau'r partneriaethau - yn dod o asiantaethau gwirfoddol, y cyhoedd a'r sector preifat - yn cydweithio i ganfod atebion cynaliadwy i anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae cyfraniad y gymuned yn ganolog.
- Gweithio dros Gymunedau - o dan y rhaglen £10m hon, mae 13 o brosiectau arloesol yn profi ffyrdd newydd ac arloesol o ddod â gwasanaethau lleol i gydfynd ag anghenion lleol. Eto, mae cyfraniad y gymuned yn y prosiectau arloesol yn hanfodol iddynt lwyddo.
- Gwrando ar Gymunedau - mae'r rhaglen £3m hon yn anelu at ddatblygu potensial cymunedau lleol i gymryd rhan mewn partneriaethau adfywio a nodi ffyrdd newydd o brofi anghenion,

dyheadau a barn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys rhaglen sgiliau £1m, Gweithio gyda'n Gilydd, Dysgu gyda'n Gilydd, a gynlluniwyd i helpu'r rhai sy'n gweithio mewn partneriaethau, yn ogystal â Rhaglen Paneli a Rheithgorau y Bobl, gwerth £1m.

- Mae Mynd Rhagddi yn agenda sy'n rhoi per i gymunedau.
- Cynllunio cymunedol - a fydd yn anelu at roi lle canolog i'r gymuned wrth wneud penderfyniadau yngln â'r ardal leol, fel bod polisi cyhoeddus yn cyflwyno gwasanaethau sy'n cydfynd ag anghenion a blaenoriaethau'r rhai sy'n eu defnyddio ac yn helpu i adnewyddu cymunedau.
- Cyllidebu lleol - mae'r Weithrediaeth yn edrych at ddatblygu cyllidebu lleoliadol yn yr Alban. Dylai cymunedau lleol fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar wariant arian cyhoeddus yn eu hardaloedd. Dylai datblygu Cynllunio Cymunedol yn barhaus helpu i hwyluso hyn.
- Bydd Cronfa Gwell Cymdogaeth yn buddsoddi £90m yn ychwanegol wrth ddatblygu strategaethau i wella gwasanaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban.

## 2. ADFYWIO CYMUNEDOL YNG NGOGLEDD IWERDDON

Dros yr 20 mlynedd diwethaf roedd yr adnoddau ariannol a ddefnyddiwyd at broblemau trefol yn cynnwys cymysgedd o arian cyhoeddus prif ffrwd, cronfeydd Strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd a chyfraniadau gan y Gronfa Ryngwladol dros Iwerddon. Roedd y mecanweithiau adfywio yn cynnwys y model Corfforaeth Datblygu, Grant Datblygu Trefol, Cynlluniau Datblygu Cynhwysfawr a Menter Gwella'r Amgylchedd. Datblygwyd y mesurau hyn i ddelio â phroblemau dyrys ac er eu bod wedi arwain at nifer o lwyddiannau dros gyfnod o amser, mae cydnabyddiaeth bod yr un gwendid yn perthyn iddynt i gyd, sef eu bod yn ymateb i'r galw a bod yr ymateb hwnnw i angen yn dameidiog. Ar waethaf llwyddiannau gwerthfawr, mae angen diweddaru ac uwchraddio cynlluniau a phrosesau nawr i sefydlu blaenoriaethau i dderbyn adnoddau ariannol prin a mynd i'r afael â materion o bryder sy'n bodoli ar hyn o bryd ac a ragwelir yn y dyfodol yngln â bywyd trefol, yn enwedig anghenion y rhai nad ydynt yn elwa'n ddigonol o gael gwasanaethau a chyfleoedd modern.

Felly, mae'r Adran Datblygu Cymdeithasol yn datblygu strategaeth newydd o adfywio trefol ledled Gogledd Iwerddon, ac mae'r prif elfennau fel a ganlyn:

- rhoi lle canolog ym mhob gweithgaredd adfywio i fynd i'r afael â'r amddifadedd a'r anfantais fwyaf difrifol;
- rhoi lle canolog i adfywio yng ngwaith prif ffrwd Adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau cyhoeddus a rhaglenni;
- canolbwyntio mwy ar weithgaredd adfywio ar lefel ardaloedd;
- rhoi'r per i gymunedau lunio a llywio eu gweithgaredd adfywio; ac
- ymrwymo i gynllunio a gweithredu mewn cyfnod o saith i ddeng mlynedd.

## 3. LLOEGR: Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL DROS ADNEWYDDU CYMDOGAETHAU

Nod y Strategaeth Genedlaethol dros Adfywio Cymdogaethau yw mynd i'r afael ag amodau annerbyniol o wael yn ardaloedd tlotaf Lloegr lle mae'r bwlch o'i gymharu â'r cyfartaledd wedi lledu dros amser. Methiannau sector cyhoeddus oedd un o achosion y ffenomenon, ac mae'r gost yn uchel, yn economaidd ac yn ddynol. Datblygwyd y strategaeth gyda mewnbwn arbenigwyr o ystod o feysydd oddi mewn a thu allan i Whitehall, a phreswylwyr ardaloedd difreintiedig.

### 1. Cefndir

Lansiwyd y cysyniad o Strategaeth Genedlaethol gan y Prif Weinidog ym mis Medi 1998. Cafodd ei ysgogi gan y dystiolaeth yn adroddiad cyntaf yr Uned Eithrio Cymdeithasol ar ardaloedd difreintiedig . Roedd hyn yn dangos bod ardaloedd tlawd yn dioddef lefelau trosedd llawer uwch na gweddill y wlad, a bod safonau iechyd, sgiliau, cyflogaeth ac amgylchfyd ffisegol yn llawer gwaeth.

Roedd yr adroddiad yn dangos bod y bwlch rhwng yr ardaloedd tlotaf a'r cyfartaledd wedi lledu dros yr 1980au a'r 1990au. Mae'r gwahaniaeth yn amlwg rhwng yr ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig a'r rhai llai difreintiedig, ond mae hyd yn oed yn fwy amlwg pan gymherir ardaloedd llai - wardiau neu ardaloedd.

### 2. Diben

Lluniwyd y Strategaeth i fynd i'r afael â'r dirywiad llwyr mewn ardaloedd difreintiedig, ei wyrdroi a'i rwystro rhag digwydd eto.

### 3. Camau i'w cymryd

Dros y dudalen y mae tabl yn nodi Cerrig Milltir Allweddol y Strategaeth Genedlaethol.

### 4. Nodau a Thargedau

Gosodwyd amcanion tair blynedd fel a ganlyn:

- Mwy o bobl mewn gwaith
- Llai o drosedd
- Gwell cyrhaeddiad addysgol
- Gwell iechyd
- Gwell tai ac amgylchfyd ffisegol

---

**Strategaeth Genedlaethol: Cerrig Milltir Allweddol**

| Blwyddyn | Mis | Cam | Adran Whitehall |
|---|---|---|---|
| **2000** | Tachwedd | Sefydlu Uned Adnewyddu Cymdogaethau (NRU) | Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) |
| **2001** | Ionawr | Y set data cyntaf erioed o wybodaeth lefel ward ar gael. | DETR/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) |
| | Ebrill | Y Strategaeth Genedlaethol yn dod i rym. Telir y taliadau cyntaf o'r Gronfa Adnewyddu Cymdogaethau. | Amrywiol, goruchwylir gan yr Uned Adnewyddu Cymdogaethau |
| | | Yr 88 awdurdod mwyaf difreintiedig wedi cymryd camau tuag at sefydlu Partneriaethau Strategol Lleol (LSP). | NRU |
| | | Y Ganolfan Adnewyddu Cymdogaethau yn dod i rym. | NRU |
| | Hydref | Partneriaethau Strategol Lleol yn yr 88 ardal mwyaf difreintiedig yn cytuno ar y Strategaethau Adnewyddu Cymdogaethau *[neu Awdurdod Lleol yn nodi sut i wario'r Gronfa er mwyn cefnogi'r Cynllun, a ddaw wedyn]*. | NRU |
| | Tachwedd | Awdurdodau Lleol (yr 88 mwyaf difreintiedig) sy'n gymwys am Gronfa Adnewyddu Cymdogaethau yn ymrwymo i fodloni amodau. | NRU |
| **2002** | | Adolygu cynnydd y Strategaeth Genedlaethol. | NRU |
| **2003** | Ebrill | Mae'n debygol y bydd ystadegau ar gymdogaethau â chyfeiriadaeth ddaearyddol lawn ar gael (i'w diweddaru'n flynyddol) | ONS |
| | | Datblygu dull o fesur y bwlch | ONS |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gorffennaf | Gosod targedau 3-Blynedd Newydd ar gyfer 2004-7 yn Adolygiad o Wariant 2003. Nodi’r targedau Daearyddol-benodol ar lefel ward/cymdogaeth am y tro cyntaf. | Y Trysorlys/Pawb |
| **2004** | Mawrth | Cyflawni’r Targedau 3 Blynedd (ac eithrio trosedd, sy’n darged 5 mlynedd). | Pob un ** |
| **2005** | Mawrth | Nid yw yr un ardal awdurdod lleol i gael mwy na 3 gwaith y raddfa bwrgleriaeth ddomestig genedlaethol, gyda’r olaf wedi gostwng o 25%. | Y Swyddfa Gartref |
| **2006** | Mawrth | Targedau 3-Blynedd Newydd ar gyfer 2007-10 i’w nodi yn Adolygiad o Wariant 2006. | Y Trysorlys/Pawb |
| **2010** | Mawrth | Y bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a gweddill Lloegr i fod wedi lleihau, o ran y saith canlyniad allweddol. | Pob un ** |